Y Bwrdd Taliadau

Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd 2022 / 2023

Ymateb y Bwrdd Taliadau

Ebrill 2023

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau ac adnoddau cywir ar gael i Aelodau o'r Senedd fel y gallant ymgymryd â'u rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau Aelodau yn ogystal â'u lwfansau eraill megis costau staffio a swyddfa.

Dechreuodd tymor y Bwrdd presennol yn y swydd yn 2020 ac mae'n rhedeg tan fis Medi 2025, tua blwyddyn cyn y bydd y Senedd nesaf yn cael ei sefydlu. Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd, ei swyddogaethau a'i Aelodau ar gael ar wefan y Bwrdd.

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Ym mis Mai 2022, comisiynodd y Bwrdd Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol Comisiwn y Senedd, i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd tua hanner ffordd trwy gyfnod y Bwrdd yn y swydd. Hoffai'r Bwrdd ddiolch i Gareth am roi o'i amser i gynnal yr adolygiad ac am gyflwyno ei ganfyddiadau i'r Bwrdd. Hoffai'r Bwrdd ddiolch hefyd i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad (gweler rhestr o'r cyfranwyr yn atodiad 2 adroddiad yr adolygiad). Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am yr adolygiad hwn yn Atodiad A y papur hwn.

Trafododd y Bwrdd adroddiad yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2023 gan gynnwys ei ymateb i argymhellion yr adroddiad. Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y Bwrdd i bob un o'r 12 argymhelliad a wnaed, a gytunwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2023.

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adroddiad a'r adborth a ddychwelwyd i'r Bwrdd o'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid gan gynnwys Aelodau o'r Senedd a'u staff, a chan aelodau o'r Bwrdd ei hun, fel rhan o'r gwaith maes a wnaed gan awdur yr adroddiad.

Mae rhai o'r adborth a ddaeth i law yn peri anesmwythder i'r Bwrdd, yn arbennig efallai'r ffaith bod rhai Aelodau a Staff Cymorth wedi adrodd am golli hyder ac ymddiriedaeth yn y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n llwyr i wneud gwelliannau lle bo modd er mwyn gwella ymddiriedaeth yn ei waith. O'r herwydd, mae'r Bwrdd yn croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad wrth i ni symud i ail hanner ein cyfnod yn y swydd, a bydd yn ein helpu i barhau i ddatblygu a chyflawni ein swyddogaethau mewn modd effeithiol.

Fel y cydnabu rhanddeiliaid, mae hanner cyntaf cyfnod y Bwrdd yn y swydd wedi bod yn heriol o ran y cyd-destun – yn enwedig colli unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb o ganlyniad i COVID – a dyma'r sefyllfa lle'r oeddem yn gweithredu. Gellir priodoli rhai o'r rhwystredigaethau y mae rhanddeiliaid yn eu teimlo'n uniongyrchol i'r cyd-destun heriol hwn ac fe'u rhennir gan y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd eisoes wedi dechrau gwneud newidiadau i'w ffyrdd o weithio mewn ymateb i faterion a godwyd fel rhan o'r adolygiad. Mae wedi ymrwymo i gynyddu ei ymgysylltiad wyneb yn wyneb â'i randdeiliaid, er gwaethaf rhai rhwystrau parhaus i hyn, a achoswyd yn fwy diweddar gan effaith y streiciau cyffredinol cenedlaethol. Bydd y Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar weithredu'r argymhellion fel y nodir isod.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y mater a godwyd ynghylch cymhlethdod yr amgylchedd rheoleiddio, a'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn. Mae'r rhain yn nodweddion sy'n codi'n aml mewn sefyllfa seneddol, ac mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'r angen i lywio eu gwahanol gylchoedd gorchwyl yn barhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i chwarae ei ran wrth symleiddio prosesau'r Penderfyniad ar gyfer Aelodau, o fewn cyfyngiadau ei gylch gorchwyl.

Mae rhai o'r argymhellion sy'n ymwneud â'r mater hwn yn briodol i'r Senedd a'r Comisiwn eu hystyried, megis y fframwaith llywodraethu cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu oddi mewn iddo. Mae'r Bwrdd yn barod i weithio gyda'r Senedd neu Gomisiwn y Senedd i lywio unrhyw ystyriaeth o'r fath, a defnyddio ei brofiad i gyfrannu at y materion hyn.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r awgrym yn yr adroddiad y dylid cynnal adolygiad effeithiolrwydd pellach cyn diwedd cyfnod y Bwrdd hwn yn y swydd, i ddilysu'r cynnydd a wnaed yn ogystal â gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd drwy gydol ei dymor. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach tua diwedd cyfnod y Bwrdd yn y swydd.

Ymateb y Bwrdd i argymhellion yr adolygiad

Argymhelliad 1	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Mae'r adolygiad yn nodi nad oes gan y Bwrdd un ddogfen ar hyn o bryd sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd, nac yn nodi manylion y rheolau ar gyfer cyfarfodydd, fel sicrhau cworwm, dirprwyo ar gyfer y Cadeirydd, ac ati.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y manteision o nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd a'r trefniadau o ran sut y dylid cynnal busnes y Bwrdd. Gofynnwyd i Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ddiweddaru'r ddogfen lywodraethu bresennol, a elwir yn Siarter y Bwrdd, sy'n adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol o ran gweithredu'r Bwrdd ac yn amlinellu manylion rolau, cyfrifoldebau a threfniadau gweinyddol, i'r Bwrdd gytuno arnynt.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd, ar y cyd â thîm yr ysgrifenyddiaeth, gyflwyno Siarter ar gyfer y Bwrdd neu ddogfen lywodraethu arall o'r fath.	
Argymhelliad 2	**Manylion**	**Ymateb y Bwrdd**
Mater	Mae'r pandemig COVID wedi lleihau'n sylweddol y cyfleoedd ar gyfer cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng aelodau'r Bwrdd, yr ysgrifenyddiaeth, a'r timau integredig ehangach.	Er bod y cyfyngiadau ar ryngweithio wyneb yn wyneb a brofwyd yn ystod y pandemig heb os wedi effeithio ar y broses o feithrin perthnasoedd rhwng aelodau'r Bwrdd a swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd, cymerwyd camau yn ddiweddar i gryfhau'r perthnasoedd wyneb yn wyneb hynny. Er enghraifft, mae'r Bwrdd wedi cytuno'n ddiweddar pa aelod o'r Bwrdd fydd yn arwain yr adolygiadau thematig amrywiol yn ei raglen waith strategol. Mae'r aelodau hyn bellach yn gweithio'n uniongyrchol gyda swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd. Ymhen amser dylai'r model hwn o weithio
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â swyddogion y Comisiwn er mwyn cytuno ar drefniant i neilltuo amser ar gyfer y broses o ddatblygu perthnasoedd rhwng y Bwrdd a swyddogion. Dylid neilltuo amser a dyddiadau ar gyfer cyfleoedd datblygu a gweithgarwch adeiladu tîm, a hynny er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu effeithiolrwydd y Bwrdd ymhellach.	

		helpu aelodau'r Bwrdd a swyddogion i ddatblygu perthnasoedd gwaith agosach. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i aelodau'r Bwrdd a staff ymgysylltu'n fwy rheolaidd, er enghraifft ar ymylon cyfarfodydd y Bwrdd, yn enwedig pan fo hynny yn y cnawd, ac fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd.
Argymhelliad 3	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Mae'n bosibl y bydd y broses o ddiwygio'r Senedd yn parhau i effeithio ar waith y Bwrdd yn y dyfodol, gan olygu y bydd angen gwahanol sgiliau, profiadau ac ymrwymiadau amser gan aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol. Er enghraifft, un cwestiwn a ofynnwyd yn ystod fy adolygiad oedd a ddylai fod yn ofynnol i un o gyn-Aelodau'r Senedd fod yn aelod o'r Bwrdd yn y dyfodol.	Fel y nodir yn Adran 6 ac Atodlen 2 Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, cyfrifoldeb Comisiwn y Senedd yw gwneud trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i fod yn aelodau o'r Bwrdd a phenodi ei aelodau. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu ei fatrics sgiliau cyn y broses recriwtio nesaf ac i drafod hyn gyda'r Comisiwn.
Argymhelliad	Y Comisiwn sy'n gyfrifol am recriwtio i'r Bwrdd. Os bydd cyfle yn codi, dylai'r Bwrdd presennol gydweithio â'r Comisiwn i adolygu'r fanyleb ar gyfer gwasanaethu fel aelod o'r Bwrdd yn y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun diwygio'r Senedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn cyn y rownd nesaf o recriwtio ar gyfer y Bwrdd.	

Argymhelliad 4	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Ar hyn o bryd, gofynnir am adborth gan aelodau'r Bwrdd a swyddogion y Comisiwn ar ddiwedd cyfarfodydd y Bwrdd. Yn ystod yr adolygiad, rhannwyd rhywfaint o adborth â mi ynghylch cyfarfodydd y Bwrdd nad oedd eisoes wedi cael ei fwydo yn ôl i'r Bwrdd. Felly, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd am ddefnyddio dulliau eraill i gasglu adborth a cheisio sicrhau bod tystiolaeth ac adborth adeiladol yn dod i law mewn 'amser real'.	Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn bydd y Cadeirydd yn cynnal gwerthusiad blynyddol o waith y Bwrdd gyda chyd-aelodau'r Bwrdd yn unigol, fel modd o gasglu adborth ynglŷn â'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu. Bydd y Cadeirydd hefyd yn gweithio gyda'r Ysgrifenyddiaeth i nodi mecanwaith neu fecanweithiau ar gyfer casglu adborth i'r Bwrdd. Bydd mecanwaith (neu fecanweithiau) o'r fath yn sicrhau llwybr preifat/y tu allan i'r cyfarfod i annog swyddogion i deimlo'n gyfforddus wrth roi adborth i'w ystyried gan y Bwrdd e.e. drwy ganiatáu i adborth gael ei roi'n ddienw.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu mecanweithiau eraill ar gyfer casglu adborth yn rheolaidd gan bawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd.	
Argymhelliad 5	**Manylion**	**Ymateb y Bwrdd**
Mater	Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y ffaith nad oes ganddo arbenigedd ym maes trethiant ac wedi comisiynu pennaeth caffael y Comisiwn i helpu'r Bwrdd gyda'r mater hwn y flwyddyn nesaf. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd er mwyn rhannu'r wybodaeth hon, ac wedi gofyn am ddiweddariadau gan y Comisiwn ynghylch cynnydd y trafodaethau treth a gynhelir â Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC). Mae meysydd eraill posibl lle nad oes digon o wybodaeth neu arbenigedd ar gael i'r Bwrdd.	Mae angen ystod eang o sgiliau ac arbenigedd ar y Bwrdd i gefnogi ei waith yn llawn. Mae angen rhai sgiliau ac arbenigedd o'r fath drwy'r amser (e.e. sgiliau ymchwil a datblygu polisi) tra bod angen arbenigedd mewn rhai meysydd penodol ar adegau penodol yn unig. Mae'r Comisiwn yn ystyried gofynion a bylchau sgiliau'r Bwrdd wrth recriwtio staff i gefnogi ei waith. Mae'r gwaith o recriwtio ymchwilydd cymwysedig llawn amser yn digwydd ar hyn o bryd a gall y Bwrdd gomisiynu arbenigedd allanol lle bo angen, pan fo hyn yn fwy cost-effeithiol. Yn 2022, comisiynodd y Bwrdd gwmni rheoli cyfleusterau i gynnal ymchwil arbenigol i gostau
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd wneud gwaith dadansoddi pellach ar y bylchau sy'n bodoli er mwyn pennu a oes meysydd eraill lle mae diffyg arbenigedd neu gapasiti ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus â gwybodaeth gyflawn.	

		rhentu swyddfeydd yng Nghymru, ac mae'n bwriadu comisiynu rhagor o gefnogaeth arbenigol ar gyfer ei adolygiadau thematig arfaethedig. Wrth i'r Bwrdd adolygu ei raglen waith, bydd yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn i sicrhau bod ganddo lefel resymol o adnoddau o fewn ei gyllideb wedi'i glustnodi. Bydd y Bwrdd hefyd yn adolygu ei anghenion o ran arbenigedd a chapasiti fel rhan o'i adolygiad diwedd tymor o effeithiolrwydd i helpu i nodi unrhyw newidiadau yn y cymorth staffio sydd ei angen ar y Bwrdd yn y Seithfed Senedd.
Argymhelliad 6	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	O bryd i'w gilydd, mae diffyg eglurder o ran y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn a'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y berthynas honno.	Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weithredwr y Comisiwn. Mae'r cymorth staffio a ddarperir i'r Bwrdd gan y Comisiwn yn cael ei adolygu fel rhan o'r trafodaethau hyn. Mae gan y Bwrdd a'r Comisiwn eu cyfrifoldebau dros sicrhau bod digon o adnoddau a chymorth gan yr Aelodau drwy wasanaethau'r Comisiwn er mwyn iddynt ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Mae trafodaethau ac ymgysylltiad y Bwrdd â'r Aelodau wedi dangos yn glir bod diffyg eglurder o ran rolau'r Bwrdd a'r Comisiwn wrth reoleiddio gwariant yr Aelodau a darparu adnoddau a chymorth i'r Aelodau. a) Yn ddiweddar, cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at y Llywydd, fel Cadeirydd y Comisiwn, i ofyn i sefydlu
Argymhellion	a) Dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau â'r Comisiwn er mwyn adolygu eu perthynas yng nghyd-destun y gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu i'r Bwrdd, a dylai ystyried sut y gall y trefniant hwn weithio wrth symud ymlaen. b) Dylai'r Bwrdd hefyd gydweithio â staff y Comisiwn er mwyn sicrhau eglurder i Aelodau a'u staff ynghylch rolau'r Bwrdd, y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, a'r Prif Weithredwr.	

		mecanwaith ar gyfer deialog rheolaidd rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn ar Ddiwygio'r Senedd. Bydd mecanwaith o'r fath yn caniatáu ar gyfer trafodaethau ynglŷn â rolau'r ddau gorff o ran sut maent yn cefnogi'r Aelodau yn y dyfodol.
Argymhelliad 7	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Mynegwyd pryderon ynghylch sut y mae'r Bwrdd yn cyfathrebu â'i randdeiliaid gwleidyddol o bryd i'w gilydd. Ymhlith y sylwadau beirniadol a fynegwyd oedd yr awgrym bod dyblygu diangen yn digwydd, ynghyd â phryderon ynghylch amseru rhai ymgynghoriadau a'r rhybudd a roddir yn eu cylch.	Yn ddiweddar, bu'r Bwrdd yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd i gynnal ymarfer ymgysylltu ar y cyd gyda'r Aelodau ynglŷn â'u ffyrdd o weithio, yn hytrach na chynnal ymarferion ymgynghori ar wahân, a thrwy hynny leihau'r galw ar amser yr Aelodau. Wrth symud ymlaen bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r Aelodau ar y cyd â'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd o ddiddordeb a rennir, lle bo hynny'n briodol. b) Yn ddiweddar, dechreuodd y Bwrdd adolygiad symleiddio gyda'r nod o sicrhau bod y fframwaith sydd ar waith i reoleiddio gwariant yr Aelodau drwy'r Penderfyniad yn glir ac mor syml â phosibl i'r Aelodau a'u staff ei ddilyn. Dylai gweithio ar y cyd â'r Comisiwn yng nghyd-destun yr adolygiad hwn helpu i sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau'r Bwrdd a'r Comisiwn. Bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'i raglen waith, a phan fydd ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol wedi'i gynllunio, er enghraifft drwy lythyrau diweddaru a gyhoeddir yn dilyn pob cyfarfod Bwrdd, cyfarfodydd rheolaidd â
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd geisio mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd mewn perthynas â'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i randdeiliaid gwleidyddol. Un posibilrwydd fyddai defnyddio arbenigedd cyfathrebu i helpu a chefnogi'r Bwrdd. Dylai'r Bwrdd hefyd gynnwys Aelodau a'u staff wrth wneud penderfyniadau terfynol ar unrhyw ffyrdd neu egwyddorion newydd sy'n cael eu mabwysiadu mewn perthynas â chyfathrebu yn y dyfodol, a chytuno arnynt, a hynny er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth.	

		Phenaethiaid Staff grwpiau gwleidyddol yn y Senedd a thrwy y Grwpiau Cynrychiolwyr a'r Grŵp Cyswllt Gwleidyddol.
Argymhelliad 8	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Roedd rhai rhanddeiliaid gwleidyddol o'r farn y byddai'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn fwy dealladwy pe bai'r holl wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Bwrdd ar gael iddynt.	Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r angen i weithredu gyda chymaint o dryloywder â phosib, er mwyn sicrhau hygrededd ac ymddiriedaeth yn ei waith.
Argymhelliad	Mae tryloywder yn egwyddor bwysig sy'n sail i waith y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd adolygu eto yr amgylchiadau lle byddai'n briodol rhannu'r wybodaeth y mae'n ei chael ar ffurf ymchwil er mwyn sicrhau bod gan y rhai yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau ddealltwriaeth glir o'r dystiolaeth a arweiniodd at wneud y penderfyniadau hynny.	Mae is-adran 2(3) Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn cydnabod natur sensitif posibl gwaith y Bwrdd drwy ganiatáu i'r Bwrdd gynnal ei fusnes yn breifat. Er gwaethaf natur sensitif ei drafodaethau ar adegau, mae'r Bwrdd yn cyhoeddi gwybodaeth amrywiol am ei waith yn uniongyrchol i'r Aelodau ac ar ei wefan. Bydd y Bwrdd yn ystyried fesul achos pa lefel o wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol ei chyhoeddi i egluro'r dystiolaeth allweddol sydd wedi llywio ei benderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol nad yw'r amserlen ar gyfer ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, yn enwedig amseriad cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn rhoi llawer o amser i Aelodau a'u staff gynllunio cyllidebau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Mae'r Bwrdd yn ystyried a ellid newid amseriad y broses hon, a sut y gellid gwneud hynny, i roi mwy o amser ar gyfer cynllunio'r gyllideb cyn dechrau pob

		blwyddyn ariannol. Yn y cyfamser, mae eisoes wedi paratoi briff llafar ymlaen llaw ar gyfer Penaethiaid Staff ynghylch cyllidebau 2023-24 i helpu gydag unrhyw bryderon uniongyrchol.
Argymhelliad 9	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Yn ystod yr adolygiad, gwnaed nifer o sylwadau i mi am yr anawsterau y mae defnyddwyr yn eu profi o bryd i'w gilydd wrth geisio deall a dod o hyd i wybodaeth yn y Penderfyniad. Ceir diweddariadau rheolaidd ac, fel y nodir yn y prif adroddiad, o bryd i'w gilydd, mae darpariaethau ar gael i Aelodau nad yw'r Penderfyniad ei hun yn cyfeirio atynt yn benodol.	Mae'r Bwrdd wedi dechrau adolygiad sydd â'r nod o symleiddio'r Penderfyniad. Fel rhan o'r adolygiad hwn bydd y Bwrdd yn ymgysylltu ag Aelodau a'u staff i drafod unrhyw anawsterau a gafwyd wrth iddynt geisio gwneud eu ffordd drwy'r Penderfyniad presennol, er mwyn helpu i lywio penderfyniadau gan y Bwrdd ar sut i ddatblygu a gwella'r Penderfyniad yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiwn hefyd er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir i'r Penderfyniad yn creu cymhlethdodau diangen i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o ran ei weinyddiaeth a'i fod yn sicrhau cymaint o eglurder â phosibl ynghylch y lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau a'r hyn sydd ei angen i ganiatáu iddynt hawlio eu costau busnes.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd sicrhau bod y gwaith y mae'n ei wneud ar symleiddio'r broses yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â'r Penderfyniad. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylai hefyd gynnwys staff y Comisiwn (gan gynnwys y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau), yr Aelodau eu hunain a staff cymorth yn ei drafodaethau, a hynny er mwyn llywio'r ffordd ymlaen o ran y Penderfyniad.	

Argymhelliad 10	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Mae rhywfaint o ddadlau o hyd am ddyfodol y Bwrdd, ei berthynas â'r Senedd a'r Comisiwn, a beth fyddai natur ei gylch gorchwyl mewn Senedd ddiwygiedig a mwy.	Mae cylch gorchwyl y Bwrdd wedi'i nodi ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Mae unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd yn fater i'r Senedd. Byddai'r Bwrdd yn hapus i gyfrannu at drafodaethau ar unrhyw newidiadau y mae'r Senedd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i gylch gorchwyl y Bwrdd. Ysgrifennodd y Bwrdd at y Llywydd yn ddiweddar (gweler yr ymateb i argymhelliad 6 uchod) i geisio sefydlu mecanwaith ar gyfer deialog reolaidd rhwng y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd a chadarnhaodd ei barodrwydd i ddefnyddio ei brofiad i gyfrannu at unrhyw drafodaethau ynglŷn â chylch gorchwyl y Bwrdd yn y dyfodol.
Argymhelliad	Y Senedd fyddai'n gyfrifol am unrhyw newid yng nghylch gorchwyl y Bwrdd neu unrhyw broses i'w ddiwygio. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn er mwyn codi'r themâu sy'n ymwneud â'i berthynas barhaus â'r Comisiwn ac unrhyw effaith bosibl ar ei gylch gorchwyl yn y dyfodol, o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd.	

Argymhelliad 11	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Nid oes trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol wedi'u pennu ar gyfer y Bwrdd ar hyn o bryd.	Fel y nodwyd mewn ymateb i argymhelliad 4 uchod, mae'r Bwrdd yn cytuno y dylai'r Cadeirydd gynnal gwerthusiadau blynyddol gyda phob aelod o'r Bwrdd yn unigol, fel modd o gasglu adborth ar waith y Bwrdd. Bydd hyn yn cael ei lywio gan adborth gan swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd. Dylai'r broses hon o hunanfyfyrio helpu i nodi unrhyw welliannau i'w gwneud i'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd, o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd a chan gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth, ystyried cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad blynyddol gydag aelodau'r Bwrdd, a hynny'n unol ag arfer da.	

		Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried unrhyw adborth ar ei waith sy'n dod i law gan Aelodau a Staff Cymorth, er enghraifft sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grwpiau Cynrychiolwyr neu mewn ymateb i ymgynghoriadau'r Bwrdd, fel modd o sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus.
Argymhelliad 12	Manylion	Ymateb y Bwrdd
Mater	Mae angen i'r Bwrdd sicrhau y gall olrhain unrhyw gynnydd yn erbyn ei strategaeth – ac yn wir, yr argymhellion hyn – mewn modd digonol, gan sicrhau ei fod yn cyfathrebu â'i randdeiliaid ynghylch unrhyw gynnydd o'r fath.	Mae'r Bwrdd yn cytuno y dylai fesur ei gynnydd wrth gyflawni ei amcanion strategol a rhoi gwybod i'w randdeiliaid am y cynnydd hwn. Mae adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd "..cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno." Bydd y Bwrdd yn defnyddio'r broses hon i ystyried i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion strategol a gweithredu argymhellion yr adolygiad o effeithiolrwydd, ac er mwyn rhannu'r cynnydd â'i rhanddeiliaid.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu dull o olrhain ei gynnydd, a dylai rhoi cynllun cyfathrebu ar waith er mwyn sicrhau y gall ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud i'w randdeiliaid.	

Atodiad A – Cefndir yr adolygiad

Yn y gorffennol, mae'r Bwrdd wedi comisiynu adolygiadau annibynnol o'i effeithiolrwydd fel rhan o'i ymrwymiad i wella a datblygu parhaus.

Yn gynnar yn 2020, ar ddiwedd ei gyfnod yn y swydd, comisiynodd y Bwrdd blaenorol adolygiad o'i effeithiolrwydd dros ei dymor pum mlynedd i helpu i lywio gwaith y Bwrdd (presennol) nesaf. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad hwnnw ar gael yn Atodiad D adroddiad blynyddol 2019-2020 y Bwrdd. Roedd y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw i'r Bwrdd newydd eu hystyried yn cynnwys, er enghraifft, gwella rhai o drefniadau gweinyddol y Bwrdd. Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw eu hystyried gan y Bwrdd presennol ar ddechrau ei gyfnod yn y swydd.

Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y Bwrdd i adolygiad effeithiolrwydd pellach a gomisiynwyd ym mis Mai 2022, tua hanner ffordd drwy gyfnod y Bwrdd presennol yn y swydd.